**COFNODION CYFARFOD BWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**
**A GYNHALIWYD DRWY ZOOM**
**DDYDD GWENER, 17 CHWEFROR 2023**

**<u>YN BRESENNOL</u>**
**Aelodau Cyngor Sir Ceredigion:**
Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth **(BD) (Cadeirydd)**
Y Cynghorydd Catrin M S. Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid **(CMSD)**
Y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio **(CD)**
Y Cynghorydd Keith Henson, Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon **(KH)**
Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Gwarchod y Cyhoedd **(MV)**

**Aelodau Cyngor Sir Powys:**
Y Cynghorydd Aled Davies **(AD)**
Y Cynghorydd David Selby, Aelod Cabinet dros Bowys Fwy Ffyniannus **(DS)**
Y Cynghorydd Amanda Jenner **(AJ)**

**Swyddogion:**
Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion **(BR)**
Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu, Cyngor Sir Ceredigion **(EP)**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Ceredigion **(LE)**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion (RHP)
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion **(DH)**
Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol: Twf a Menter, Cyngor Sir Ceredigion **(ADa)**
Carwyn Jones-Evans, Arweinydd Strategol ar y Cyd, Tyfu Canolbarth Cymru/Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**
Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys **(CT)**
Clive Pinney, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Cyngor Sir Powys **(CP)**
Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau, Tyfu Canolbarth Cymru **(CM)**
Aggie Caesar-Homden, Rheolwr Partneriaeth - Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, Tyfu Canolbarth Cymru **(ACH)**
Angharad Massow, Swyddog Cyfathrebu, Tyfu Canolbarth Cymru **(AM)**
Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Gweithredol yr Economi a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Powys **(NB)**
Nicola Williams, Cyd-Arweinydd Strategol, Tyfu Canolbarth Cymru/Cyngor Sir Powys **(NW)**

**Sylwedyddion y Llywodraeth:**
Gareth Ashman, Pennaeth Twf Rhanbarthol a Lleol, Llywodraeth y DU, Cymru
John Hawkins, Llywodraeth y DU, Cymru
Ann Watkin, Pennaeth Strategaeth, Cysoni Gweithrediadau a Chynllunio, Llywodraeth Cymru
Darnley Reid, Tîm Twf Rhanbarthol a Lleol, Llywodraeth y DU, Cymru

Peter James, Uwch Reolwr Strategaeth a Gweithrediadau, Llywodraeth Cymru

| 1. | **CROESO AC YMDDIHEURIADAU / WELCOME AND APOLOGIES** |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd James Gibson-Watt (CSP), y Cynghorydd Matthew Dorrance (CSP), Diane Reynolds (CSP), Diana Davies a Nicola Owen.

| 2. | **DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL / DECLARATIONS OF PERSONAL INTEREST** |
|---|---|

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

| 3. | **COFNODION DRAFFT Y CYFARFOD DIWETHAF / DRAFT MINUTES OF THE LAST MEETING 26/09/22** |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022 yn gofnod cywir.

| 4. | **BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU / MID WALES GROWTH DEAL** |
|---|---|

Dywedodd CM fod Achos Busnes Strategol y Portffolio f2.0 wedi'i ddrafftio a'i fod yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Cynhaliwyd gweithdy ar 10 Chwefror gydag aelodau'r Grŵp Rheoli, cydweithwyr o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y Grŵp Cynghori Economaidd ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru i edrych yn fanylach ar y newidiadau a gwahodd adborth.

Roedd dogfennau ategol wedi'u diweddaru gan gynnwys Strategaeth Fuddsoddi'r Sector Preifat a fyddai hefyd yn destun ymgynghoriad pellach yn enwedig gydag aelodau'r Grŵp Cynghori Economaidd er mwyn rhoi mewnbwn gan y sector preifat.

Byddai fersiynau terfynol y ddwy ddogfen yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan Fwrdd TCC ar 28 Mawrth 2023 ac yna'n cael eu cyflwyno i'r ddwy Lywodraeth i'w hystyried yng nghyfarfod Cites Cymru a Bwrdd Gweithredu'r Fargen Twf ar 29 Mawrth. Byddai hyn yn ysgogi rhyddhau'r Llythyr Dyfarnu Grant.

Roedd Adolygiad Sicrwydd ar gyfer y Portffolio wedi'i gynnal yn ystod wythnos 14-17 Chwefror. Pwrpas yr adolygiad, a oedd yn cynnwys tîm adolygu allanol ac annibynnol, oedd rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ac i'r ddwy Lywodraeth bod popeth yn ei le i symud ymlaen â cham cyflawni'r Cynllun Twf. Byddai adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Uwch Berchnogion Cyfrifol ac yna rhoddid adborth i Fwrdd TCC.

Gofynnwyd i CM a oedd lle o hyd i brosiectau newydd ddod i mewn pe bai prosiectau eraill yn dod i ben. Dywedwyd wrthi y bydd y swyddfa rheoli'r portffolio yn datblygu proses i alluogi prosiectau sydd ar y gweill i gael eu cyflwyno. Byddai

angen i'r Bwrdd asesu sut maent yn cyd-fynd ag amcanion y Cynllun Twf a byddai'n bwysig peidio â chodi gobeithion.

Nododd y Bwrdd fod y cyflwyniadau gan noddwyr wedi cael derbyniad da ar y cyfan er y gallai rhai fod wedi bod yn fyrrach a chyda gwell ffocws. Gofynnodd y Cyng. AJ am y cyflwyniadau o'r ail weithdy. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau at yr Uwch Swyddogion Cyfrifol, Nigel Brinn a Barry Rees.

Gofynnodd y Cadeirydd am roi ystyriaeth i a ddylai'r Bwrdd gael un pwynt cyswllt â'r *EAG*.

| 5. | CYLLID / FINANCE |
|---|---|

**5.1 Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 / Annual Return for the year ended 31 March 2022**

Derbyniodd y Bwrdd y Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Roedd Archwilio Cymru wedi archwilio'r Datganiad Blynyddol. Mae eu tystysgrif Archwilio a'u barn yn datgan – 'Ein bwriad yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad diamod ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 ac nid oes unrhyw faterion mewn perthynas â'r farn y dymunwn dynnu eich sylw atynt.'

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022.**

**5.4 Cyllideb refeniw arfaethedig 2023/24 ar gyfer Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru**

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2023/24.

Ers sefydlu Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn ffurfiol, roedd gweithgarwch datblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru hyd yma wedi'i ariannu'n bennaf drwy gyfraniadau yn y fan a'r lle gan y ddau Awdurdod Lleol a chyllid grant allanol (Llywodraeth Cymru).

Derbyniwyd cymorth refeniw ychwanegol ym mis Chwefror 2021 gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ar gyfer elfen o gostau refeniw i helpu i sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio am y cyfnod hyd at fis Gorffennaf 2023, fel rhan o waith rhanbarthol ehangach drwy Tyfu Canolbarth Cymru. Nid oedd y cyllid grant hwn yn rhan o gyllideb Bwrdd TCC ac ar hyn o bryd mae'n cefnogi 7 swydd.

Cynigiwyd cyllideb refeniw am 2023/24 ar gyfer Bwrdd TCC gwerth cyfanswm o £592,000. Roedd y gyllideb arfaethedig yn rhagdybio y byddai costau Swyddfa Rheoli'r Portffolio o fis Awst 2023 ymlaen yn cael eu cynnwys, gan gefnogi'r swyddi canlynol:

- Rheolwr Gweithrediadau'r Fargen Twf
- Rheolwr Rhaglen: Safleoedd ac Adeiladau
- Rheolwr Rhaglen: Digidol
- Swyddog Cefnogi a Dadansoddi'r Portffolio
- Rheolwr Prosiect *ESF* (*yn amodol ar adolygiad)*

- Swyddog Cyfathrebu TCC
- Swyddog Arweiniol Ynni TCC (*yn amodol ar adolygiad)*

Roedd Cyllideb arfaethedig 23/24 yn rhagdybio y byddai cyllid refeniw o £367,000, sef brigdoriad o 4% o Gyllid Bargen Twf Blwyddyn 1 a ragwelir gan y ddwy lywodraeth yn ystod 2023/24. Roedd hyn yn amodol ar gymeradwyo’r Fargen Twf yn llawn. Roedd y gyllideb arfaethedig hefyd yn rhagdybio y byddai cyllid o £100,000 yr un yn parhau gan Gynghorau Sir Powys a Cheredigion.

Roedd y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn sefyllfa ddaliannol cyn yr hyn a ragwelid o ran dyfarnu Cyllid y Cynllun Twf. Byddai angen cynnal adolygiad adnoddau, yn barod ar gyfer symud o’r cam datblygu i gyflawni’r Cynllun Twf, yn ystod chwarter cyntaf 2023/24 a allai arwain at yr angen i’r Bwrdd ystyried Cyllideb ddiwygiedig yn ystod 2023/24. Gallai’r adolygiad hwn ddod i’r casgliad bod angen naill ai lefel uwch, lefel is neu'r un lefel o adnoddau yn fras ar gyfer y cam nesaf. Yn ogystal, ni ddylid gwario gwariant craidd y tu hwnt i gyfraniadau arfaethedig y Cynghorau o £200k hyd nes y bydd y Cynllun Twf wedi’i sicrhau’n ffurfiol, gan nad yw’r brigdoriad o 4% yn bodoli hyd nes y bydd hynny yn ei le ac y derbynnir llythyr cynnig grant.

**PENDERFYNWYD**

1.1. Bod Bwrdd TCC yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2023/2024 o £592,000 fel yr amlinellir yn Atodiad 1, sy'n cynnwys cyfraniad o £100,000 yr un gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.

1.2. Bod Bwrdd TCC yn nodi'r bwriad i gynnal adolygiad Adnoddau yn barod ar gyfer cam nesaf y Cynllun Twf.

1.3. Bod Bwrdd TCC yn nodi na ddylai gwariant craidd fod yn fwy na £200,000 yn ystod 2023/24 hyd nes y bydd y Cynllun Twf wedi’i sicrhau a bod y Llythyr Cynnig Grant cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru wedi’i gael a’i dderbyn.

| 6. | UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS |
|---|---|

Dywedodd NB fod drafft cyntaf yr Adolygiad Sicrwydd ar gyfer y Portffolio wedi'i ddychwelyd gydag asesiad hyder Ambr/Gwyrdd. Byddai'r drafft terfynol yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd pan fyddai ar gael.

| 7. | DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF / DATES OF FUTURE MEETINGS |
|---|---|

28 Mawrth 2023 - Rhithwir
23 Mehefin 2023 - Rhithwir
29 Medi 2023 - Rhithwir
15 Rhagfyr 2023 - Rhithwir

| 8. | EITHRIO'R CYHOEDD / EXCLUSION OF THE PUBLIC |
|---|---|

Nid yw’r adroddiad sy’n ymwneud ag eitem 5 i’w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y’i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor, yn dilyn cymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd, yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd a’r wasg yn cael eu gwahardd o’r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o’r fath, yn unol ag Adran 100B(2) o’r Ddeddf.

**PENDERFYNWYD**
Cytunwyd gwahardd y cyhoedd a’r wasg wrth ystyried eitem 9 isod ar y sail bod dogfennau’n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fusnes y Cynghorau, y penderfynwyd ar ôl ystyriaeth ofalus, na ddylai gael ei datgelu i'r cyhoedd a'r wasg.

| 9. | PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU / MID WALES REGIONAL SKILLS PARTNERSHIP |
|---|---|

Rhoddodd ACH ddiweddariad ar gynnydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru ac ar Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd drafft a Chynllun Gweithredu’r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh). Derbyniodd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd.

Roedd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi’i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu gwybodaeth am y farchnad lafur gan gydweithio â chyflogwyr a rhanddeiliaid i ddatblygu'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd a'r Cynllun Gweithredu newydd. Roedd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi comisiynu Lightcast i gefnogi’r gwaith o ddatblygu’r cynllun. Er mwyn cael llais busnesau, dosbarthwyd yr arolwg Cyflogaeth a Sgiliau blynyddol trwy gysylltiadau busnes, fforymau busnes penodol fel Ffederasiwn y Busnesau Bach a Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru, Rhanddeiliaid, Partneriaid, rhwydweithiau eraill, ac aelodau Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Roedd fersiwn drafft lefel uchel cyntaf o’r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd newydd (2022 – 2025) a’r Cynllun Gweithredu, a fyddai’n nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad rhanbarthol sy’n cefnogi swyddi a thwf yn rhanbarth Canolbarth Cymru, wedi’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru am sylwadau a rhoddwyd adborth dechreuol ar gyfer y drafft terfynol.

Ychwanegwyd nifer o atodiadau at y cynllun a fyddai'n canolbwyntio ar wahanol feysydd polisi sy'n rhan o'r Rhaglen Lywodraethu. Roedd angen canlyniadau allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf ar gyfer pob un o’r meysydd canlynol:

- Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022 – 2025
- Sgiliau digidol
- Sgiliau Sero Net
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)
- Addysg Bellach a Phrentisiaethau
- Y Gymraeg

Roedd gan bob Atodiad uchod ei nodyn cyfarwyddyd ei hun. Er mwyn darparu cyd-destun a chyngor ychwanegol, neilltuwyd Arweinwyr Polisi LIC i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer pob un o'r meysydd uchod.

Roedd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd wedi cynhyrchu Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau drafft 3 blynedd ar wahân, mwy o faint, yn canolbwyntio ar gyflogwyr a rhanddeiliaid, a Chynllun Gweithredu i hyrwyddo eu gwaith yn y rhanbarth, gan wneud y defnydd gorau o ffeithluniau i'w wneud yn haws i'w ddarllen. Lle nad oedd ardaloedd Blaenoriaeth Economaidd TCC wedi'u cynnwys yn benodol yn yr atodiadau, archwiliwyd y rhain yn fanylach yn y cynllun mwy.

Eglurodd ACH beth oedd yn cael ei wneud i ymgysylltu â busnesau a dywedodd fod y gyfradd ymateb yn debyg i'r arfer ar gyfer Canolbarth Cymru. Gofynnodd y Bwrdd am gyfleoedd i fyfyrwyr a faint oedd yn gorfod gadael y rhanbarth i ddilyn eu dewis gyrsiau. Cytunwyd bod angen dadansoddi'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Canolbarth.

**PENDERFYNWYD**

1. Derbyn Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
2. Nodi'r cynnydd hyd yma.
3. Cymeradwyo Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd drafft a Chynllun Gweithredu'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

**Y Cynghorydd Sir Bryan Davies**
**Cadeirydd**